Adnewyddu'r Prif Bibellau Dŵr yn Ardal Machynlleth

Rydym yn buddsoddi tua £2.5 miliwn yng nghanol ardal Machynlleth i adnewyddu dros 13km o'r prif bibellau dŵr presennol a sicrhau eu bod yn fwy dibynadwy.

Yr ydym yn anelu at ddechrau'r gwaith ym mis Hydref 2010 gyda golwg ar gwblhau'r cynllun erbyn mis Awst 2011.

Mae'r cynllun isod yn nodi ble bydd y gwaith yn digwydd.

Pam mae angen i ni wneud y gwaith hwn
Rydym yn awyddus i sicrhau y gall ein cwsmeriaid yn Machynlleth fwynhau cyflenwad di-dor o ddŵr o ansawdd uchel. Mae llawer o'n pibellau wedi gwasanaethu'r gymuned ers blynyddoedd ac mae angen cael rhai newydd yn eu lle erbyn hyn.

Cysylltu
Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y gwaith hwn, cysylltwch â'n Canolfan Wasanaethu Gweithrediadau Cwsmer ar y rhif **0800 783 4444.**

Tri rheswm da dros beidio â thywallt braster, olew a saim (BOS) i lawr y sinc i'r carthffosydd:
1) Mae BOS yn caledu wrth daro waliau oer y garthffos ac mae hyn yn achosi rhwystr.
2) Yna mae rhwystrau yn peri i garthion gronni a gorlifo i'ch cartrefi ac i ffyrdd, parciau ac afonydd lleol.
3) Mae BOS yn gallu denu llygod mawr! Cadwch eich amgylchedd lleol yn lân a diogel, gwaredwch eich braster, olew a saim yn y ffordd gywir!
Cewch drap braster AM DDIM yn www.stwater.co.uk/fattraps neu ffoniwch y rhif 0845 603 4413.

Rhowch ef yn y bin nid i lawr y toiled!
Mae carthffosydd a draeniau ar gyfer gwastraff dynol, papur toiled, dŵr gwastraff a dim byd arall. Dylid gwaredu unrhyw eitemau eraill, hyd yn oed os nodir arnynt y gellir eu rhoi i lawr y toiled, yn y ffordd gywir, naill ai yn y bin neu yn y banc ailgylchu/gwaredu agosaf.

Peidiwch â rhoi'r eitemau canlynol i lawr y toiled:
• Eitemau'r misglwyf
• Clytiau parod
• Leininau
• Cadachau sychu babanod
• Cadachau glanhau
• Cyfarpar atal cenhedlu
• Ffyn cotwm

• Gwlân cotwm
• Ellynnau
• Brwsys dannedd
• Lensys cyswllt
• Padiau anymataliaeth
• Bagiau colostomi
• Rhwymynnau wedi'u defnyddio
• Plastrau
• Chwistrellau a nodwyddau
• Meddyginiaethau
• Teits
• Edau ddeintiol
• Bonau sigarét

Pum ffordd hawdd o arbed dŵr, ynni ac arian

Mae pawb yn rhanbarth Severn Trent Water yn defnyddio **133 litr (29 galwyn) o ddŵr y dydd** ar gyfartaledd, ac mae bron i draean hyn yn cael ei wastraffu heb ei ddefnyddio. Gallwn ni i gyd leihau'r gwastraff hwn trwy newid ychydig bach ar ein harferion bob dydd.

1 Rhowch fag arbed-gwacáu yn eich seston -
Mae cwsmeriaid sydd wedi gwneud hyn eisoes wedi arbed hyd at 4,000 litr o ddŵr bob blwyddyn.

2 Cymerwch funud yn llai i gael cawod – Mae pobl sydd wedi gwneud hyn eisoes yn arbed miloedd o litrau o ddŵr bob blwyddyn a gallant leihau eu costau ynni o ganlyniad.

3 Casglwch ddŵr glaw mewn casgen ddŵr - Mae cwsmeriaid sydd eisoes yn defnyddio casgen ddŵr yn casglu'r holl ddŵr y mae ei angen ar gyfer eu gardd a gallant arbed dros 1,000 litr o ddŵr glân bob blwyddyn.

4 Caewch y tap wrth frwsio eich dannedd – Gall hyn arbed dros 5 litr o ddŵr bob munud! Amcangyfrifir bod cwsmeriaid sydd wedi gwneud hyn eisoes wedi arbed digon o ddŵr i gyflenwi anghenion beunyddiol tua 450,000 o gartrefi.

5 Ewch i'n gwefan a dysgu rhagor am arbed dŵr yn eich cartref ac am gynhyrchion gwych sy'n arbed dŵr. **www.stwater.co.uk/savewater.**